



Regional Learning and Skills Partnership
Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol

De-Orllewin Cymru
South West Wales



Ariennir yn Rhannol gan
Lywodraeth Cymru
Part Funded by
Welsh Government

Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau

De-orllewin Cymru

2022-2025

Mae'r Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol (RLSP) yn cynnull at ei gilydd bartneriaid diwydiant o bob sector ynghyd â darparwyr hyfforddiant/addysg i ddatblygu partneriaeth strategol i gryfhau a hyrwyddo sgiliau a hyfforddiant yn y rhanbarth, yn benodol felly er mwyn cwrrdd â gofynion cyflogwyr ar hyn o bryd ac i'r dyfodol. Mae gwybodaeth, arbenigedd ac ymrwymiad holl aelodau'r Bwrdd, grwpiau clystyrau diwydiant, y grŵp darparwyr hyfforddiant a'r gymuned fusnes ehangach sy'n cefnogi'r RLSP yn sicrhau y gallwn ddatblygu'r sgiliau hollbwysig hynny yn unol â'r galw; technolegau datblygol a diwydiannau newydd ar y gorwel.

Datblygwyd y cynllun Cyflogaeth a Sgiliau tair blynedd hwn ar y cyd â chyflogwyr, darparwyr hyfforddiant ac arweinyddion ysgolion i roi gwybod i Lywodraeth Cymru pa sgiliau fydd eu hangen yn y rhanbarth gyda'r bwriad o ddylanwadu ar gynlluniau a bwriadau cyllido Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg ôl-16 trwy gyrsiau a phrentisiaethau llawn amser. Mae'r cynllun yn cynnwys camau allweddol ar anghenion hyfforddiant, gan gynnwys y technolegau datblygol i gwrdd â'r agenda sero net.

Mae newid yn digwydd yn gyflym, ac ers cyhoeddi'r Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau diwethaf yn 2019 gwelwyd newidiadau mawr ar draws y byd. Mae'r anghenion sgiliau wedi Covid wedi newid y ffordd y mae unigolion yn derbyn hyfforddiant erbyn hyn, a gwelwyd symudiad amlwg yn y gofynion hyfforddiant o ran technoleg ddigidol a chafwyd cynnydd yn y galw am brentisiaethau a chyfleoedd profiad gwaith wrth inni ymadael yn raddol â byd gweithio hybrid. Mae recriwtio yn parhau'n her fawr i nifer o sectorau, ac mae llawer yn wynebu anawsterau economaidd gan fod swyddi heb eu llenwi. Gwneir hynny'n waeth fyth gan yr argyfwng costau byw presennol a her cyflawni gofynion yr agenda newid hinsawdd, sydd oll yn effeithio ar gynhyrchiant busnesau. Fodd bynnag, mae sgiliau'n parhau'n flaenoriaeth i fusnesau ac mae'r Cynllun hwn yn manylu ar y meysydd blaenoriaeth y mae angen rhoi sylw iddynt i sicrhau ein bod yn datblygu'r gweithlu i'r dyfodol. Mae sawl cyfle i'r rhanbarth trwy'r Fargen Ddinesig a phrosiectau mawr eraill fydd yn denu buddsoddiad i'r ardal ynghyd â'r swyddi cyflogau da sydd eu hangen ar yr ardal.

Hoffwn ddiolch i aelodau Bwrdd yr RLSP; grwpiau clystyrau Diwydiannol a'r darparwyr hyfforddiant am eu cefnogaeth barhaus a'u cyfraniad amhrisiadwy i waith yr RLSP. Byddwn yn annog pob busnes i gymryd rhan yng ngwaith y Bwrdd i sicrhau y gallwn gyflawni nid yn unig y camau a amlinellir yn y Cynllun hwn ond ein bod hefyd yn codi ymwybyddiaeth o'r sgiliau fydd eu hangen ar bob busnes unigol a'r rhanbarth i'r dyfodol i sicrhau bod gan fusnesau y gallu i gystadlu am y cyfleoedd a gynhyrchir drwy dechnoleg newydd.



Edward Morgan

Cadeirydd y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol

Cynnwys

Tudalen 2

Methodoleg

Tudalen 3

Demograffeg Diwydiannol a Rhanbarthol

Tudalennau 4-5

Trosolwg o'r Farchnad Lafur a Sgiliau Diwydiannol

Tudalennau 6-7

Rhwystrau Gweithlu Pob Sector

Tudalennau 8-9

Rhwystrau a Chyfleoedd Fesul Sector

Tudalen 12

Gofynion Sgiliau i'r Dyfodol

Tudalen 11

Cynllunio i'r Dyfodol

Tudalen 12

Canfyddiadau Arolwg yr RLSP Pob Sector

Tudalennau 13-23

Dadansoddiad o'r Sector a Chynlluniau

Tudalen 23

Crynodeb o Gamau


Tudalennau 24-26

Cynllun Gweithredu


Methodoleg

Dros y 3 blynedd diwethaf bu tîm RLSP De-orllewin Cymru yn casglu tystiolaeth o sawl ffynhonnell i sicrhau bod y wybodaeth sydd ar gael ar heriau sgiliau yn gadarn a chynrychioliadol. Gan ddefnyddio tystiolaeth sylfaenol o **491 ymateb yn arolwg Cyflogaeth a Sgiliau RLSP De-orllewin Cymru** a gynhaliwyd rhwng Mai ac Awst 2022 gan ddefnyddio dulliau casglu data o e-bost i'r we, a thargedu cyflogwyr lleol, ynghyd â thri chyfarfod blynyddol o grwpiau clwstwr sy'n cwmpasu holl sectorau diwydiant yn y rhanbarth, rydym wedi casglu set cadarn o ddata yn seiliedig ar yr heriau sgiliau pwysicaf i'r rhanbarth. Gan ddefnyddio data eilaidd a gwybodaeth ystadegol gallwn fesur y dystiolaeth a gasglwyd er mwyn sicrhau bod y wybodaeth a gynhwysir yn y cynllun yn gadarn a chynrychioliadol a'i bod yn gydnaws â blaenoriaethau allweddol, arfer gorau a pholisi.

Canlyniadau'r Arolwg fesul Maint Diwydiant




Canlyniadau'r Arolwg fesul Ardal Diwydiant



Gweledigaeth Llywodraeth Cymru

Mae'r dirwedd sgiliau'n cael ei llunio gan weledigaeth bresennol Llywodraeth Cymru, ac mae'r canlynol yn grynodeb byr o ddogfennau polisi cyfredol y mae'r cynllun yn gydnaws â nhw:

- Cymru Gryfach Decach a Gwyrddach Cenedlaethau'r Dyfodol, Cyflogadwyedd a Sgiliau 2022
- Sero Net – Cyllideb Garbon 2021-2025
- Y Cwricwlwm Cenedlaethol Newydd
- Cymraeg 2050
- Digidol 2030
- Cysoni'r Model Prentisiaethau gydag anghenion yr economi 2017
- Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol De-orllewin Cymru
- Dyfodol Gweithgynhyrchu i Gymru
- Cyflawni Trawsnewidiad Economaidd ar gyfer gwell dyfodol gwaith





Diwydiant

Mae 94.3% o bob
menter yn fusnesau
micro


(0-9 gweithiwr)

Sectorau cyflogaeth mwyaf yn y rhanbarth

- Iechyd Dynol a Gwaith Cymdeithasol
- Manwerthu
- Gweithgynhyrchu

<https://statswales.gov.wales/>

Genedigaethau a Marwolaethau Busnesau yn y Rhanbarth



Demograffeg

Poblogaeth o 707,599 i fyny 1.6% er 2016

Cyflwg cyfartalog £25,000 - £5,000 yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol o £30,000

Risg Milflynyddol Mae'r rhanbarth yn cynnwys 124,784 o bobl 25-39 oed. Tua 8k yn llai na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer rhanbarth y maint hwn.

Mae Risg Ymddeoliadau yn uchel yn y rhanbarth. Bydd 272,685 yn cyrraedd oed ymddeol yn y 10 mlynedd nesaf. Tua 27k yn fwy o bobl yn ymddeol na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer rhanbarth y maint hwn.

Risgiau Iechyd Cynnydd o 4255 (7%) ymhlith pobl 55 i 64 oed. Gallai fod yn broblem i wasanaethau cyhoeddus.

Risgiau Sgiliau ac Addysg 4900 (9%) Gostyngiad yn nifer y bobl ifanc 19 – 29 oed

Risgiau Profiad o 7300 (7%) yn nifer y gweithwyr profiadol yn y grŵp oed 45-54

Source: Emsi Burning Glass 2022


	Poblogaeth 2021	Swyddi 2021	GVA
Rhanbarth	707,599	267,129	£11.1b
Sir Gaerfyrddin	189,021	66,808	£2.7b
Castell-nedd Port Talbot	144,003	49,694	£1.9b
Abertawe	248,586	105,728	£4.4b
Sir Benfro	125,989	44,800	£2.1b




Cyflogaeth 16-64

- **Cyflogedig**
gostyngiad o 1,400 er 2019
- **Diweithdra**
cynnydd o 1,100 er 2019
- **Anweithgar** (ac eithrio myfyrwyr),
gostyngiad o 300 er 2019


Cyflogedig



Di-waith



Anweithgar ac eithrio Myfyrwyr



<https://statswales.gov.wales/>

Marchnad Lafur a Diwydiant, Trosolwg Sgiliau

Mae'r canlynol yn cynnig golwg ar gyflenwad a galw o ran sgiliau perthnasol trwy gymharu amlder sgiliau sydd mewn hysbysebion swyddi gyda sgiliau sydd ar gael yng ngweithlu heddiw.

Mae llawer o swyddi'n cael eu hysbysebu sawl gwaith, ond gallwn weld yn y tablau canlynol faint o hysbysebion swyddi unigryw a ymddangosodd dros gyfnod o amser.

MATH O ALWEDIGAETH	2019 Swyddi	2022 Swyddi	2019-22 Newid	2019-22 % Newid
Rheolwyr, Cyfarwyddwyr ac Uwch Swyddogion	26,472	25,647	-825	-3%
Galwedigaethau Proffesiynol	50,048	50,331	282	1%
Galwedigaethau Proffesiynol a Thechnegol Cysylltiol	32,309	31,543	-766	-2%
Galwedigaethau Gweinyddol ac Ysgrifenyddol	33,488	33,017	-472	-1%
Galwedigaethau Crefftau Medrus	32,187	30,702	-1,486	-5%
Galwedigaethau Gofal, Hamdden a Gwasanaethau Eraill	28,500	28,662	163	1%
Galwedigaethau Gwerthiannau a Gwasanaeth Cwsmeriaid	25,713	24,612	-1,101	-4%
Galwedigaethau Gweithwyr Proses, Offer a Pheiriannau	17,337	18,381	1,044	6%
Galwedigaethau Elfennol	42,479	41,858	-620	-1%
	288,533	284,752	-3,781	-1%

Mae'r rhanbarth hwn wedi colli swyddi Rheoli, Proffesiynol / technegol a Chrefftau medrus er 2019.

Rhesymau posib yn seiliedig ar adborth o'r diwydiant:

- **Dileu swyddi** (effaith Covid)
- **Ymddeoliadau** anodd llenwi'r swydd
- **Draen Dawn** Sgiliau uchel yn cael eu denu gan gystadleuwyr o'r tu allan i'r rhanbarth.

Cafwyd cynnydd o 6% yn nifer y gweithredwyr peiriannau.

Mae'r tabl isod yn dangos y sgiliau y cyfeiriwyd atynt amlaf yn yr hysbysebion swyddi unigryw yn y rhanbarth.

- Cyfeirir at sgiliau Gwe TG a digidol mewn mwy na 4% o'r holl hysbysebion swyddi
- Mae Gofal a Nyrsio yn cyfrif am 8% o'r holl hysbysebion swyddi

Sgiliau Swyddi Mawr eu Hangen

SGIL mewn Hysbysebion	Amlder Hysbysebion	Hysbysebion gyda Sgiliau (Gorff 2021-Meh 2022)
Nyrsio	4%	3,001 / 67,406
Gofal Personol	4%	2,946 / 67,406
Dalenni Arddull Rhaeadru	4%	2,800 / 67,406
WebKit	4%	2,635 / 67,406
Flexbox	4%	2,613 / 67,406
Marchnata	4%	2,549 / 67,406
Ansawdd Gwasanaeth	4%	2,493 / 67,406
Iechyd Meddwl	3%	2,289 / 67,406
Archwilio	3%	2,145 / 67,406
Cyllid	3%	2,075 / 67,406
Gwaith Warws	3%	1,976 / 67,406
Cadw Tŷ	3%	1,691 / 67,406
Perfformiad Allweddol	2%	1,659 / 67,406
Cyfrifyddu	2%	1,379 / 67,406
Dadansoddi Risg	2%	1,370 / 67,406
Rhedeg Bwytai	2%	1,295 / 67,406
Anfonebu	2%	1,189 / 67,406
Rhifedd	2%	1,125 / 67,406
Coginio	2%	1,119 / 67,406
Anableddau Dysgu	2%	1,117 / 67,406

Mae'r tabl isod yn dangos y sgiliau profiad y cyfeiriwyd atynt amlaf mewn hysbysebion swyddi.

- **Cyfathrebu**
- **Rheoli**
- **Gwasanaeth Cwsmeriaid**

Yw'r rhai y cyfeirir atynt amlaf

Sgiliau Profiad Mawr eu Hangen

SGIL mewn Hysbysebion	Amlder Hysbysebion	Hysbysebion gyda Sgiliau (Gorff 2021-Meh 2022)
Cyfathrebu	26%	17,495 / 67,406
Gwasanaeth Cwsmeriaid	18%	12,148 / 67,406
Rheoli	15%	10,287 / 67,406
Y Gymraeg	10%	6,562 / 67,406
Gwerthiant	9%	6,207 / 67,406
Addysgu	7%	4,429 / 67,406
Sylw i Fanylion	6%	3,923 / 67,406
Cynllunio	6%	3,853 / 67,406
Brwdfrydedd	6%	3,850 / 67,406
Arweinyddiaeth	5%	3,732 / 67,406
Hunan-Gymhelliant	5%	3,076 / 67,406
Cyfathrebu Rhyngbersonol	4%	2,595 / 67,406
Ymchwil	4%	2,484 / 67,406
Gweithrediadau	4%	2,463 / 67,406
Datrys Problemau	4%	2,360 / 67,406
Blaengaredd	3%	2,135 / 67,406
Mathemateg Sylfaenol	3%	1,827 / 67,406
Rheoli Amser	3%	1,770 / 67,406
Cydnherthedd	3%	1,767 / 67,406
Microsoft Excel	3%	1,758 / 67,406

Marchnad Lafur a Diwydiant, Sectorau

Mae'r tabl isod yn dangos yn glir ymhle rydym yn gweld cynnydd mewn swyddi a llai o swyddi yn seiliedig ar ddata 2020 – 2022.

Sectorau Twf: Colli Swyddi

- Cyfanwerthu a Manwerthu
- Llety a Manwerthu
- Amaethyddiaeth
- Proffesiynol Gwyddonol a Thechnegol
- Ariannol ac Yswiriant
- Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)

Sectorau Twf: Ennill Swyddi

- Gweinyddiaeth Gyhoeddus
- Gweinyddol
- Adeiladu
- Trafnidiaeth
- Ynni, Trydan a Nwy

SECTOR	2019 Swyddi	2022 Swyddi	2019-22 Newid	2019-22% Newid
Gweithgarwch Iechyd Dynol a Gwaith Cymdeithasol	46,940	46,933	-6	0%
Masnach Cyfanwerthu a Manwerthu; Atgyweirio Cerbydau Modur a Beiciau Modur	44,883	35,394	-9,489	-21%
Gweithgynhyrchu	25,302	26,737	1,435	6%
Gweinyddiaeth Gyhoeddus ac Amddiffyn; Nawdd Cymdeithasol Gorfodol	23,973	26,045	2,072	9%
Addysg	24,768	24,632	-136	-1%
Gweithgarwch Llety a Gwasanaethau Bwyd	27,964	23,155	-4,809	-17%
Gweithgarwch Gweinyddol a Chymorth	17,163	20,202	3,038	18%
Adeiladu	14,387	17,241	2,854	20%
Amaethyddiaeth, Coedwigaeth a Physgota	13,041	12,322	-719	-6%
Trafnidiaeth a Storio	10,137	12,293	2,156	21%
Gweithgarwch Proffesiynol Gwyddonol a Thechnegol	11,320	10,513	-807	-7%
Celfyddydau, Adloniant a Hamdden	6,008	6,440	432	7%
Gweithgarwch Ariannol ac Yswiriant	6,467	5,679	-787	-12%
Gweithgarwch Eiddo Tirol	3,361	4,307	946	28%
Gweithgarwch Gwasanaethau Eraill	4,103	4,278	175	4%
Gwybodaeth a Chyfathrebu	4,784	3,878	-906	-19%
Gweithgarwch Cyflenwi Dŵr; Carthffosiaeth; Rheoli ac Ailddefnyddio Gwastraff	2,396	3,288	891	37%
Cyflenwi Trydan, Nwy, Stêm ac Awyru	887	825	-62	-7%
Cloddio a Chwarelu	655	634	-21	-3%

Source: Emsi Burning Glass 2022

Cynrychiolaeth yn y Farchnad Lafur

Gorgynrychioli yn erbyn Cyfartaledd Cenedlaethol: 2020 - 2022

Mae'r isod yn rhestru galwedigaethau yn y rhanbarth sydd heb ddigon o gynrychiolaeth neu ormod o gynrychiolaeth yn seiliedig ar y cyfartaledd cenedlaethol dros gyfnod o 2 flynedd.


Gormod o Gynrychiolaeth Mae hyn yn nodi lle y mae mwy o weithwyr a diwydiannau ar gyfartaledd yn y rhanbarth o gymharu â'r sefyllfa genedlaethol. Mae hyn yn aml yn golygu fod mwy o alw am y math hwn o ddiwydiant yn y rhanbarth. Mae proffesiynau Elfennol a Gofal yn enghreifftiau o hyn.

Dim digon o Gynrychiolaeth – Mae hyn yn nodi lle y mae llai o weithwyr a diwydiannau ar gyfartaledd yn y rhanbarth o gymharu â'r sefyllfa genedlaethol. Mae hyn yn aml yn golygu fod llai o alw am y math hwn o ddiwydiant yn y rhanbarth, ond gall hefyd amlygu cyfleoedd am dwf a gwella sgiliau.

Proffesiynol, Proffesiynol gysylltiol a Thechnegol, Rheolwyr / Cyfarwyddwyr ac Uwch Swyddogion, Crefftau Medrus, Gweithwyr Proses, Offer a Pheiriannau

Fel rhanbarth mai llai o gynrychiolaeth o swyddi sgiliau uwch a chyflogau uwch a gormod o gynrychiolaeth o swyddi sgiliau is a chyflogau is.

Dywed ymatebion clystyrau ac arolygon eu bod yn ei chael yn anodd llenwi nifer o swyddi a restrir yma yn rhai heb ddigon o gynrychiolaeth megis rheoli, swyddi proffesiynol a thechnegol, sy'n golygu fod potensial yma i ddatblygu, gwella sgiliau ac annog cyraeddiadau addysgol uwch.



Source: Emsi Burning Glass 2022

Rhwystrau yn y Gweithlu I Beth sy'n ein rhwystro rhag denu a chadw talent?

Effaith yr Economi ar Sgiliau

Crebachodd yr economi 0.1% yn ail chwarter 2022, yn ôl y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol (ONS). Dywed adroddiad Baromedr Busnes 2022 Y Brifysgol Agored, a gyhoeddwyd mewn partneriaeth â Siambrau Masnach Prydain fod mudiadau yng Nghymru yn profi sgil effeithiau prinderau sgiliau parhaus a heriau recriwtio, ac roedd mwy na thri chwarter (77%) ohonynt yn dweud fod eu hallbwn, elw neu dwf wedi lleihau ac roedd (69%) o fusnesau bach a chanolig yn wynebu prinderau sgiliau ar y pryd a dywedodd 70% ei fod yn rhoi mwy o faich gwaith ar eu staff.

Symudedd Dwysedd Poblogaeth y Gweithlu

Wrth i gostau tanwydd, yswiriant a cherbydau godi, mae hyn yn creu problem o ran symudedd y gweithlu, yn enwedig felly yn rhannau mwy gwledig y rhanbarth ac i bobl ifanc. Mae Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin yn cael eu heffeithio'n arbennig, mae ganddynt boblogaeth isel ac mae cost mynd i/o weithleoedd a hyfforddiant ac addysg yn fwy o her. Gallai'r sefyllfa economaidd bresennol gael effaith ar:

- Denu a chadw staff
- Y gweithlu'n gadael i weithio'n fwy lleol
- Y dalgylch recriwtio'n mynd yn llai
- Pobl iau yn methu fforddio trafnidiaeth
- Mwy o alw am weithio gartref
- Perygl colli pobl fedrus i gystadleuwyr sy'n cynnig mwy o arian a gweithio gartref
- Gallai mater Draen Dawn waethygu'n gyflym
- Addysg a Dysgwyr
- Anodd mynd i ac o sefydliadau addysgol
- Yr angen am fwy o ddewisiadau e-ddysgu a dysgu cyfunol Prentisiaethau

Prentisiaethau

Yn 2020/21 cychwynnwyd 4860 o brentisiaethau, sef 2,665 llai yn 2021 o gymharu â 2018 oherwydd effaith y pandemig. Yn y Sector Gofal Iechyd a'r Sector Cyhoeddus y gwelwyd y niferoedd uchaf. Y prif resymau am beidio derbyn prentisiaid yn ôl canlyniadau arolwg yr RLSP yw:

- Yr angen i wneud amser i fentora / hyfforddi prentis
- Nid yw'r fframwaith prentisiaethau yn gweddu i'w model / anghenion busnes
- Ansicr o'r broses
- Anodd denu ymgeiswyr addas
- Cyfyngiadau symudedd gweithwyr iau / Lleoliad / Dim cyfleoedd hyfforddiant yn yr ardal
- Mae'r diwylliant gweithio o bell yn ei gwneud yn anodd mentora
- Mae angen gweithlu medrus "yn barod am waith"
- Cyfyngiadau ariannol

<https://stats.wales.gov.wales/Apprenticeship-learning-programmes>

Cyngor Gyrfaoel / Profiad Gwaith

Mae gan gyngor ac arweiniad gyrfaoel y gallu i newid llwybr bywyd unigolion, ac mae hynny'n tanlinellu pwysigrwydd sicrhau bod pobl ifanc (yn dechrau ar oed cynradd) yn gallu derbyn cyngor cynrychioliadol ac ystyrlon ymhob cam o'u haddysg. Mae cyngor ac arweiniad clir nid yn unig yn effeithio deilliannau bywyd ond mae ganddynt oblygiadau arwyddocaol hefyd o ran symudedd cymdeithasol a chydarddoldeb rhwng y rhywiau.

Canfu adroddiad pwysig a luniwyd ar y cyd gan [Addysgwyr](#) a [Chyflogwyr](#) fod:

- Patrymau swyddi a ddewiswyd gan blant 7 oed yn adlewyrchu'r rhai a ddewiswyd gan bobl ifanc 17 oed.
- Fod stereoteipio rhyweddol am swyddi yn gwreiddio o oedran ifanc.
- Y teulu, teledu, radio a ffilm sy'n cael y dylanwad mwyaf ar ddewisiadau plant.
- Nid oes fawr ddim yn gyffredin rhwng dyheadau gyrfaoel plant ac anghenion disgwylidig y gweithlu, a gallai hynny olygu goblygiadau difrifol i economi'r rhanbarth.

Dywedodd adborth o grwpiau clwstwr fod hyn yn fater o bwys a'i fod yn rhwystr wrth geisio denu a chadw staff mewn rhai diwydiannau, yn bennaf oherwydd pwysau cyfoedion a stereoteipiau rhyweddol sy'n dechrau gwreiddio o oedran ifanc iawn, yn benodol felly yn y sectorau canlynol: Adeiladu, Gweithgynhyrchu a Pheirianneg, Bwyd a Rheoli Tir, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Hamdden a Thwristiaeth. Ceir astudiaeth enghreifftiol dda o ddiwydiant yn gweithio gydag addysg yma [Kier | Mae gweithio gyda chymunedau lleol yn allweddol wrth fynd i'r afael â bwch sgiliau yng Nghymru. Mae cynlluniau hefyd sy'n datblygu sgiliau bywyd i bobl iau sy'n datblygu sgiliau mentegol a thechnegol](#), ac mae The Bumbles of Honeywood ac EESW yn enghraifft dda o hyn. [The Bumbles of Honeywood Archives - 2B Enterprising / Cynllun Addysg Beiranyddol Cymru \(EESW\) | EESW | STEM Cymru](#)

Byddai mwy o gydweithio rhwng Ymgynghorwyr Gyrfaoedd, Athrawon, darparwyr Addysg a chyflogwyr lleol yn ehangu'r wybodaeth am ofynion sgiliau lleol ym myd addysg a phrofiad gwaith a gallai hynny arwain at:

- Ehangu gorwelion pobl ifanc a chodi eu dyheadau
- Cynhyrfu plant am bynciau nad oeddent efallai'n gwybod amdanynt, gwella cymhelliant, hyder ac agwedd at ddysgu
- Herio stereoteipiau rhywedd a chymdeithasol
- Gwella cyraeddiadau academaidd yn TGAU
- Galluogi pobl ifanc i ennill gwell cyflogau
- Lleihau'r tebygrwydd y bydd pobl ifanc yn mynd yn NEET
- Lleihau'r Draen Dawn sy'n digwydd ar hyn o bryd

<https://www.educationandemployers.org/drawing-the-future-report-published/>

Rhwystrau yn y Gweithlu I Beth sy'n ein rhwystro rhag denu a chadw talent?

Allfudo a Draen Dawn

Mae mwy a mwy o gyflogwyr yn rhoi gwybod i'r RLSP eu bod yn colli unigolion medrus i gwmnïau yn Lloegr. Mae ffigyrau mudo net yn dweud wrthym faint o bobl sy'n mynd i mewn ac allan o ardal benodol o'r Rhanbarth. Mae gan Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Chastell-nedd Port Talbot ffigwr mudo cadarnhaol (mwy o bobl yn dod mewn nac yn gadael) ond gwelir mudo negyddol yn Abertawe. Mae'r data demograffig yn dweud wrthym fod mwy o bobl o grwpiau ymddeol hŷn yn symud i mewn a bod grwpiau oed iau a phrofiadol yn gadael.

Abertawe: tueddiad mudo net ar i lawr,

- Gadawodd dros 1,200 o bobl ifanc 15-29 yr ardal yn 2020.
- Roedd Mudo Net yn Abertawe ar gyfer 2020 yn -1539

Gweithwyr profiadol

- Mae data demograffig yn dangos gostyngiad o 7,300 o bobl 45-54 oed yn y rhanbarth. Gall y grŵp oed hwn gynnwys y gweithwyr medrus profiadol allai fod yn cymryd swyddi proffesiynol megis rheolwyr prosiect mawr eu hangen. Awgrymodd adborth o grwpiau clwstwr fod angen mwy o reolwyr prosiect yn y rhanbarth er mwyn cadw talent a sicrhau bod prosiectau yn gallu parhau a bod modd datblygu prosiectau mawr newydd.
- Ni fu erioed mor hawdd gweithio i gwmni pellter (e.e. byw yng Nghymru gweithio i gwmni yn Lloegr) gan fod y pandemig wedi creu diwylliant gweithio gartref llawer mwy. Nid yw'r niferoedd ar Fudo a symudiadau myfyrwyr yn adlewyrchu'r ffactor hwn, sy'n golygu y gallai'r darlun fod hyd yn oed yn waeth.

<https://statswales.gov.wales/>

Myfyrwyr

- Yn 2019/20, o'r 11,040 myfyriwr graddedig Addysg Bellach o Gymru aeth i fyd gwaith, aeth 7,990 (72%) i weithio yng Nghymru, tra bod 2,950 (27%) wedi mynd i weithio yn Lloegr.
- Yn 2019/20, o'r 12,005 myfyriwr graddedig o'r DU o ddarparwyr addysg uwch yng Nghymru aeth i fyd gwaith, aeth 7,105 (59%) i weithio yng Nghymru, tra bod 4,770 (40%) wedi mynd i weithio yn Lloegr.

Graduate Outcomes 2019/20: Summary Statistics - Summary | HESA

Pobl Hŷn yn gweithio

Mae dros 1.3m o bobl 50 oed a throsodd yn byw yng Nghymru, mewn 8 mlynedd disgwylir i'r ffigwr hwn godi 100,000 arall a mynd â'r ffigwr i 1.4m. Ar hyn o bryd mae 69.4% o bobl 50 i 64 yn y rhanbarth yn gweithio.

Mae 13% o weithwyr hŷn wedi newid eu cynlluniau ymddeol ers y Pandemig, gan ddweud eu bod yn bwriadu gweithio'n hirach erbyn hyn. Yng Nghymru, dywedodd 49% yr hoffent ymddeol ond na allant fforddio gwneud, ond dywedodd 46% o'r rhain nad ydynt eisiau gweithio wedi oed ymddeol. Yn gyffredinol, mae'r berthynas gyda gweithwyr hŷn a chyflogwyr yng Nghymru yn gadarnhaol, a dywedodd 64% fod eu cyflogwr yn eu cefnogi i wneud eu gwaith yn dda, ond mae gweithwyr hŷn ar incwm is neu sy'n gorfod gwneud mwy o waith corfforol yn teimlo fod ganddynt lai o gefnogaeth ac y gwahaniaethir yn eu herbyn.

Dywedodd 76% o weithwyr hŷn eu bod yn teimlo'n hyderus ynghylch eu sgiliau digidol ac mae 68% yn credu fod ganddynt y sgiliau iawn i wneud eu swydd bresennol. Iechyd a diffyg cyfleoedd i weithwyr hŷn yw'r prif rwystrau ar gyfer pobl dros 50 sy'n ddi-waith.

Older People in the Workplace | GOV.WALES

Llenwi'r bwlch ymddeol

- Mae 99,042 o drigolion y rhanbarth yn 55-64 oed. Mae hyn yn creu bwlch sgiliau i'w llenwi dros y 10 mlynedd nesaf wrth i'r boblogaeth hon nesu at oed ymddeol.
- Syrthiodd maint y boblogaeth dan 9 oed 3% o'i gymharu â chyn y pandemig.
- Mae'r grŵp oed 5-15 12% yn llai na'r grŵp 55-64, sy'n golygu y bydd llenwi swyddi'r sawl sydd yn ymddeol yn heriol ynddo'i hun.

<https://statswales.gov.wales/>

Bydd mwy o bwysau ar y gwasanaethau cyhoeddus oherwydd fod y boblogaeth yn heneiddio, mewn meysydd fel gofal iechyd, cynlluniau symudedd ac ati, ac mae'r sectorau hyn eisoes yn ei chael yn anodd recriwtio, a nyrsio a gofal oedd y swyddi a hysbysebwyd fwyaf yn y rhanbarth yn 2021.

Dylid ystyried cyn-filwyr, ffoaduriaid, cyn-droseddwy, llwybrau pobl heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Mae hyn yn cael ei ystyried gan yr ECITB ar hyn o bryd fel maes allweddol er mwyn tyfu'r gweithlu o fewn y sector Sero Net.



Adeiladu

Y brif ystyriaeth yw y bydd 18% o'r gweithlu yn gobeithio ymddeol o fewn y 10 mlynedd nesaf ac mae'r data demograffaidd yn awgrymu fod llai o bobl iau ar gael i lenwi'r bylchau. Gallai awtomeiddio diwydiannol helpu i'r perwyl hwn. Mae canfyddiad gweithlu'r dyfodol o'r sector yn bryder hefyd, ac nid yw adeiladu yn cael ei ystyried yn llwybr gyrfaol derbynol ar gyfer pobl mewn addysg. Mae gwella'r canfyddiad o'r sector a diwydiant 4.0 yn flaenoriaeth.



Hamdden Twristiaeth a Manwerthu

Problemau gweithlu yw'r prif rwystr rhag twf yn y sector hwn, ac mae mawr angen gweithredu i annog pobl yn ôl i'r sector. Mae cyfle enfawr yn y rhanbarth ar gyfer Lletygarwch a Hamdden wrth i fwy o bobl ddewis gwyliau gartref yn hytrach na theithio dramor, ond mae ceisio manteisio ar y newid diwylliant hwn yn her gan fod denu staff mor anodd. Mae manwerthu heb fod yn hanfodol yn heriol hefyd, gan fod llai o siopwyr ar y stryd fawr a siopa ar-lein gan gwmnïau mawr yn dod yn norm, ac mae siopau lleol yn wynebu cyfnod heriol, ond mae mwy o alw gan siopwyr cymdeithasol gyfrifol am siopau boutique a chynnyrch lleol er mwyn ymateb i'r angen i leihau ôl troed carbon. Mae hon yn farchnad dwf y dylid manteisio arni.



Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Wrth i boblogaeth y rhanbarth heneiddio a chan fod y sector gofal iechyd yn un o'r cyflogwyr mwyaf yn y rhanbarth, mae rhai heriau allweddol yn wynebu diwydiannau o bob math yn y sector. Er bod lefelau gweithwyr gofal iechyd a nyrsys yn debyg i rai 2018, bydd angen codi lefelau staffio yn y blynyddoedd nesaf. Mae'r cyflogwyr llai yn y rhanbarth sy'n darparu gwasanaethau gofal a deintyddiaeth hanfodol yn ei chael yn arbennig o anodd ac mae angen cymorth brys a chynllun hirdymor arnynt. Dim ond yng Nghastell-nedd Port Talbot y mae mwy o weithwyr yn y sector yn 2022 o gymharu â 2018.



Ynni a'r Amgylchedd

Mae angen ystyried y sector hwn yn farchnad newydd sy'n galw am sgiliau ar gyfer holl lefelau'r farchnad newydd honno, ond y pryder yw y bydd y sector hwn yn llenwi'r bwlch sgiliau ar draul sectorau eraill fel Adeiladu, Gweithgynhyrchu, Ariannol a Phroffesiynol a Digidol. Mae SWIC yn grŵp Clwstwr Rhanbarthol sy'n cynnal astudiaethau hyfywedd ar ddatgarboneiddio diwydiannol y rhanbarth yn unol ag agenda Sero Net Llywodraeth Cymru, ac maent wedi llunio dogfen gofynion sgiliau fydd yn gydnaws â datgarboneiddio diwydiannol. Mae'r adroddiad yn nodi rhwystrau penodol a welwyd o ran datblygu sgiliau, fel y gwelir isod.

Source: SWIC Skills required for industrial decarbonisation and getting to Net Zero



Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch

Mae Denu a Datblygu Staff yn bryderon mawr i'r sector, ac mae'r adborth a dderbyniwyd yn awgrymu fod y canfyddiad o'r sector a chyflogau yn bryder gan fod ymgeiswyr posib yn dewis gweithio mewn proffesiynau heb sgiliau mewn sectorau eraill. O gofio hefyd fod y boblogaeth yn heneiddio, mae'n rhaid denu talent newydd i'r sector. Bydd gweithgynhyrchu yn chwarae ôl enfawr yn cyflawni Sero Net a datgarboneiddio, hefyd yn seiliedig ar bolisi 2019 Llywodraeth Cymru i weithredu 4.0 Diwydiant, a bydd polisi 2021 Dyfodol Gweithgynhyrchu i Gymru 2021 sy'n defnyddio technoleg ddigidol darfol yn hollbwysig ar gyfer llenwi bylchau sgiliau a sicrhau twf parhaus. Mae MADE Cymru yn honni mai'r dyfodol yw Technolegau Tarfol ac mae'n hanfodol fod diwydiant yn croesawu technolegau digidol wrth symud ymlaen. Felly, bydd angen i sgiliau adlewyrchu'r trosglwyddiad hwn, a gallai hynny yn ei dro ddenu talent newydd i'r sector.



Bwyd a Rheoli Tir

Teimlir mai'r prif rwystr sy'n atal y diwydiant rhag troi at Reoli Tir Cynaliadwy ac arferion ffermio carbon niwtral eraill yw'r ansicrwydd sy'n bod o hyd ynghylch y cynnwys a'r cyfeiriad y bydd Llywodraeth Cymru yn cytuno iddo o fewn Bil Bwyd Cymru. Mae'r ad-borth o'r clystyrau'n awgrymu, er bod y sector yn deall fod newidiadau i gynhyrchu bwyd a rheoli tir ar fin digwydd, nad ydynt yn gallu cynllunio ar gyfer newid nes bod y diwydiant yn gwybod i ba gyfeiriad y mae'n rhaid iddo fynd a chytuno'r prosesau y mae'n rhaid eu dilyn. Mae felly'n anodd ar hyn o bryd adnabod yr hyfforddiant a'r sgiliau fydd eu hangen ar gyfer cynhyrchu bwyd yn gynaliadwy.



Darparwyr Addysg

O fewn polisi Digidol 2030, a fframwaith Dyfodol Gweithgynhyrchu i Gymru, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi sylw i'r angen i sicrhau bod gan bob dysgwr lefel dda o sgiliau digidol a diwydiant 4.0 ac yn cyflwyno gweledigaeth o Gymru yn datblygu economi ddigidol gref. Mae sgiliau digidol yn prysur ddod yn ganolog i bob sector, ac mae mwy o alw gan ddiwydiannau o bob math i ddefnyddio prosesau digidol. O fewn polisi Cyllideb Carbon Sero Net, bydd rhaid i bob sector wreiddio "sgiliau gwyrdd" o fewn eu gweithluoedd a bydd rhaid cael proses enfawr o wella gwybodaeth a sgiliau. Mae denu addysgwyr ar gyfer y swyddi hyn yn her, ac mae digidol a sero net yn sgiliau mawr esblygol ac mae denu talent i lenwi'r swyddi hyn yn anodd.



Sector Cyhoeddus

Er mwyn sicrhau Sero Net erbyn 2030 yn y sector cyhoeddus, mae angen rhoi sylw i anghenion sgiliau, a dywedodd ymatebwyr i'r arolwg mai sgiliau adnewyddadwy fydd y sgil swyddi fydd ei hangen fwyaf yn y blynyddoedd nesaf, ond mae llawer o gyflogwyr yn y sector yn ansicr o hyd pa sgiliau penodol fyddai eu hangen yn y maes hwn. Mae heriau enfawr ar hyn o bryd o ran recriwtio ar gyfer swyddi digidol a phroffesiynol, a byddai gallu derbyn hyfforddiant mwy penodol a hwylus ar gyfer y sgiliau hyn yn fantais fawr. Mae mawr angen swyddi anodd eu llenwi eraill fel glanhawyr, arlwywyr a gweithwyr gofal hefyd. Mae'r sector yn poeni am ansawdd hyfforddiant allanol, gan sôn am sawl enghraifft o orfod dadhyfforddi ac yna ailhyfforddi graddedigion a myfyrwyr.



Digidol

Mae sgiliau digidol yn dod yn ganolog i bob sector ac mae mwy o alw gan ddiwydiannau o bob math i ddefnyddio prosesau digidol. Mae hon yn flaenoriaeth allweddol, yn enwedig felly wrth edrych ar y bylchau sgiliau mewn sectorau eraill, a thrwy gael diwylliant digidol cryf gall pob sector geisio llenwi nifer o'r bylchau sgiliau presennol trwy fabwysiadu Diwydiant 4.0 (DA, technolegau tarfol, dysgu peirianyddol, awtomeiddio ac ati). Fodd bynnag, mae effaith hynny ar gwmnïau digidol penodol (93% ohonynt yn Micro) yn cael ei gweld yn barod wrth i nifer y swyddi yn y sector leihau. Nid yw'r adborth o'r clystyrau wedi bod yn arbennig o gefnogol i'r hyfforddiant a ddarparwyd hyd yn hyn, a chafwyd adroddiadau am AU ac AB yn darparu sgiliau sylfaenol yn unig a gweithwyr newydd ddim yn barod am waith. Yr anhawster yma yw bod digidol yn newid yn barhaus ac mae darparwyr addysg yn ei chael yn anodd denu hyfforddwyr addas.

Digital 2030: strategic framework | GOV.WALES

Delivering Economic Transformation for a Better Future of Work (gov.wales)



Ariannol a Phroffesiynol

Yn holl ddogfennau polisi diweddar Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, gwelwyd fod angen am arweinydd, rheolwyr ac arbenigwyr ariannol. Heb y swyddi allweddol hyn byddai prosiectau a amlygwyd yng Nghynllun Cyflawni Economaidd SQW De-orllewin Cymru, Cyllideb Carbon Sero Net, Digidol 2030, Dyfodol Gweithgynhyrchu i Gymru ac ati oll yn ei chael yn anodd i ymsefydlu. Roedd 7,300 yn llai o bobl 45-54 oed yn y rhanbarth ers 2019 (Emsi Burning Glass 2022). Gallai'r grŵp oed hwn gynnwys y gweithwyr medrus profiadol allai fod yn gwella eu sgiliau a chael swyddi proffesiynol. Mae nifer y prentisiaethau sydd ar gael yn y sector hwn yn lleihau o flwyddyn i flwyddyn. Mae angen darparu gwell gwybodaeth am lwybrau datblygu ar gyfer gweithwyr profiadol er mwyn cadw'r talent sy'n cael ei golli.

Cynllunio i'r Dyfodol yn y Rhanbarth – Prosiectau arfaethedig

Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol

Cenhadaeth 1

Arweinydd mewn ynni adnewyddadwy a'r economi sero net yn y DU

- Ynys Ynni'r Ddraig
- Datgarboneiddio Castell-nedd Port Talbot
- Ôl-osod / datgarboneiddio cartrefi
- Prosiectau ynni adnewyddadwy Sir Gaerfyrddin
- Hwb economi gylchol
- Porthladd Rhydd Aberdaugleddau
- Ynni Aberdaugleddau
- STEP: Tokomak Sfferaidd ar gyfer Cynhyrchu Ynni
- Canolfan fyd-eang ar gyfer rhagoriaeth reilffyrdd
- Metro Bae Abertawe a De-orllewin Cymru
- Cyfnewidfeydd trafndiaeth gyhoeddus Sir Benfro
- Gwelliannau i'r gwasanaeth rheilffordd yn Ne-orllewin Cymru
- Cysylltedd digidol rhanbarthol
- Ardal Forol Doc Penfro

Cenhadaeth 2

Adeiladu Seiliau Busnes Cydnherth Cryf

- Asiantaeth arloesi rithwir De-orllewin Cymru
- Entrepreneuriaeth a Menter De-orllewin Cymru
- Bae Baglan a Glannau Port Talbot
- Porthladd Rhydd Port Talbot
- Gogledd Canol Abertawe
- Llwyfan sain Sir Gaerfyrddin
- Pentre Awel, cam
- Ailddatblygu maes awyr Hwlfordd
- Parc bwyd Sir Benfro
- Datblygu cyflenwyr lleol
- Rhaglen sgiliau a thalent
- Cefnogi cwmnïau bach a chanolog trwy gaffael / twf a blaengaredd
- Cefnogi busnesau newydd

Cenhadaeth 3

Tyfu a Chynnal y cynnig profiad

- Adfywio canol trefi
- Adfywio canol trefi Castell-nedd Port Talbot
- Mentrau gwledig Sir Gaerfyrddin
- Canol trefi Sir Benfro
- Adfywio trefi bach a'r arfordir
- Trawsnewid Tyisha Llanelli
- Darganfod Sir Benfro
- Prosiect dyfrffyrdd rhanbarthol
- Treftadaeth a Chyrchfannau Cwm Tawe Isaf
- Profiadau ymwelwyr â Sir Gaerfyrddin
- Seilwaith porthladdoedd Sir Benfro
- Darparu tai fforddiadwy

South_West_Wales_Regional_Economic_Delivery_Plan

Ysbyty Newydd Gorllewin Cymru

Bwriedir adeiladu'r ysbyty newydd ar gysyniad dylunio Bioffilig, sy'n gysyniad pensaernïol blaengar sy'n ceisio creu cysylltiad agosach rhwng defnyddwyr adeilad â natur, gan ymgorffori elfennau fel goleuo ac awyru naturiol, nodweddion tirwedd naturiol ac ati er mwyn creu amgylchedd mwy cynhyrchiol ac iachus i bobl. Gwerth y prosiect yw £1.3 biliwn ac mae'n cynnwys ailbwrpasu safleoedd yr ysbytai presennol yn safleoedd iechyd cymunedol. Mae'r bwrdd iechyd yn bwriadu penodi contractwyr lleol i adeiladu'r Ysbyty a'r safleoedd cymunedol newydd, ond hefyd i wneud gwaith cynnal a chadw ar y safleoedd hyn i'r dyfodol.

Y Fargen Ddinesig

Mae Bargaen Ddinesig Bae Abertawe (SBCD) yn fuddsoddiad yr amcangyfrifir ar hyn o bryd ei fod werth £1.2bn ar draws portfolio o 9 brif raglen a phrosiect ar draws Dinas-Ranbarth Bae Abertawe. Mae effaith y portfolio yn seiliedig ar gynhyrchu o leiaf £1.8 biliwn o Werth Ychwanegol Gros (GVA) a darparu o leiaf 9,000 o swyddi yn y rhanbarth

Mae'r 9 rhaglen a phrosiect yn cynnwys:

Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer

Seilwaith Digidol Sgiliau a Thalentau

Pentref Llesiant Pentre Awel Hwb Creadigol

Yr Egin Ardal Forol

Doc Penfro Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel

Ardal Ddigidol Dinas Abertawe a'r Glannau

Campysau gwyddor bywyd, llesiant a chwaraeon

Sgiliau angenrheidiol i'r dyfodol I Beth sydd ei angen...

Sgiliau craidd trosglwyddadwy Pob Sector

Mae'r rhanbarth yn brin o sgiliau trosglwyddadwy craidd.

Gwybodaeth STEM

- Gwybodaeth a Thechnoleg
- Mathemateg, Ffiseg a Bioleg
- Ymresymu gwyddonol a mathemategol
- Gwyddorau amgylcheddol / cynaliadwyedd

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

- Darparu llwybrau gwella sgiliau rheoli. Mae pob sector yn wynebu anawsterau i recriwtio rheolwyr
- Gweinyddiaeth fusnes

Sgiliau technegol

- Defnyddio ac atgyweirio offer technegol

Sgiliau digidol a data

- Datrys problemau data
- Seiberddiogelwch, lefel uchel a'i gynnwys ar ryw lefel yn holl gymwysiadau datblygwyr / cwmwl
- Dadansoddi
- Gwerthuso
- Gwyddorau cyfrifiadurol
- TG / Rhaglennu
- Cyfrifiadurol cwmwl
- Cyfryngau cymdeithasol
- Gweithgynhyrchu Clyfar / Technolegau Tarfol
- STEM

Sgiliau (Sero Net) Gwyrdd

- System i gynnwys sgiliau gwyrdd yn rôl pob swydd (Fel yr hyfforddiant iechyd a Diogelwch ar hyn o bryd)
- Sgiliau Gwyrdd penodol ymhob sector
- Gwell sgiliau / ailsgilio'r gweithlu presennol
- Cynnwys "Gwybodaeth Werdd" ymhob addysg a sgil

Sgiliau Sector Benodol i'r dyfodol

Ynni

Proses prosiectau newydd, gofynion sgiliau

- Cyn Caniatâd
- Dylunio, Caffael, Arolwg, gwaith caniatâd cynnar
- Caniatâd
- Asesiad / Cwmpasu Amgylcheddol
- Cyn-Adeiladu,
- Arolwg, Dylunio, Caffael, Paratoi safle
- Gweithgynhyrchu
- Ceblau, Tyrbinau /Paneli ac ati Adeiladweithiau Seiliau arnofiol, offer eilaidd
- Adeiladu
- Saerïo a Chydod, Gosod ceblau, cludo a gosod, gosod is-orsaf, comisiynu
- Gweithrediadau
- Monitro, cynnal a chadw, gweithrediadau

Gwybodaeth Arbenigol am Ynni

- Tyrbinau
- Solar
- Hydro
- Niwclear
- Morol / Llwyfan arnofiol / Llanwol
- Amgylcheddol
- Ecolegol
- Technolegau adnewyddadwy
- Storïo Ynni
- Dal Carbon / Datgarboneiddio
- Peirianwyr trydanol foltedd uchel

Adeiladu

- Aseswyr ôl-osod (TrustMark)
- Cynaliadwyedd Sero Net mewn dulliau adeiladu
- Argraffu 3D / Roboteg / Dulliau adeiladu modern
- Deunyddiau

Sgiliau Sector Benodol i'r dyfodol

Gweithgynhyrchu

- Gweithgynhyrchu Clyfar / Technolegau Tarfol / Digidol
- Deunyddiau (cynaliadwyedd, cynhyrchion deunydd cylchol)
- Cynhyrchu storfeydd ynni
- Cynhyrchu batris
- STEM

Twristiaeth, Lletygarwch, Manwerthu

- Cynaliadwyedd
- Digidol

Trafnidiaeth

- Mecanyddion cerbydau trydan
- Peirianwyr cyfleusterau gwefru
- Peirianwyr rheilffyrdd
- Peirianwyr trydanol

Bwyd a Rheoli Tir

- Gwell defnydd o ddysgu cyfunol
- Arferion organig
- Gwyddonwyr Cynhyrchu Bwyd
- Rheoli coetiroedd / pridd
- Amgylcheddol / Ecoleg / Cynaliadwyedd
- Cadw gwenyn
- Garddwriaeth
- Dal / storïo bio nwy
- Peiriannau'n cael eu tanio gan hydrogen

Iechyd a Gofal Cymdeithasol

- Deintyddiaeth
- Nyrsio
- Prentisiaethau gradd uwch. Meddygon llawfeddygon ac ati
- Gweithwyr iechyd meddwl Mental


Addysg

- Addysgwyr ar bob lefel i addysgu a chyflwyno'r sgiliau newydd hyn

Arolwg Sgiliau'r RLSP Themâu sy'n gorgyffwrdd • Sgiliau a Recriwtio • Pob Sector

Y Prif Heriau sy'n Wynebu Busnesau

Recriwtio yw'r her fwyaf o bell ffordd i gyflogwyr ar hyn o bryd. Fodd bynnag, soniodd llawer am heriau ariannol, boed hynny'n fewnol neu'n bwysau chwyddiant, ac felly wrth gyfuno ymatebion verbatim gyda'r union atebion a roddwyd, mae Heriau Ariannol yn dod yn ffactor o bwys.




RLSP Skills Survey

Bylchau sgiliau Cyfredol

Dywedodd **75%** o'r ymatebwyr i'r arolwg eu bod yn bwriadu recriwtio yn y 12 mis nesaf, ond dywedodd 55% eu bod yn wynebu heriau sgiliau yn eu sefydliadau ar y pryd. Roedd 73% yn cael anhawster i recriwtio ar gyfer swyddi penodol. Gan ddefnyddio ymatebion agored a verbatim y gofynion sgiliau mwyaf yw:

- **Crefftau medrus**
Adeiladu (pob swydd), Gyrwyr, Cogyddion, Saerïo, Nyrsys, Gweithwyr gofal, Mecanyddion, Cynhyrchu, Gweinyddiaeth
- **Galwedigaethau Proffesiynol**
/ Rheoli a Rheoli Prosiectau
- **STEM**
- **Gweithwyr Iechyd a Gofal proffesiynol**
- **TG, Datblygwyr a gweithwyr Meddalwedd**
- **Rheoli logisteg**
- **Sgiliau Gwyrdd Traws Sector**

RLSP Skills Survey



Sgiliau Meddal

Dywedodd **16.5%** o'r ymatebwyr fod staff newydd yn barod am waith, ond roedd y prif faterion o ran peidio bod yn barod am waith yn ymwneud â:

- Canfyddiadau o rôl y swydd
- Diffyg brwdfrydedd / cymhelliant, agweddau gwael
- Anhaclus / diffyg disgyblaeth
- Diffyg sgiliau pobl (cyfathrebu, datrys problemau ac ati)
- Diffyg Profiad / Sgiliau / Cymwysterau

Erbyn hyn mae llawer o gyflogwyr yn chwilio am agweddau cywir at waith yn hytrach na sgiliau penodol, gan ddibynnu ar hyfforddiant a chynnydd mewnol. Mae pob sector wedi gofyn am raglenni parod am waith / profiad gwaith. Y sgiliau meddal allweddol maen nhw'n chwilio amdanynt erbyn hyn yw:

- Sgiliau cyfathrebu
- Datrys problemau
- Arweinyddiaeth / perchnogaeth
- Gwybodaeth am gynnyrch
- Llythrennedd cyfrifiadurol
- Deall cyfarwyddiadau
- Gwytnwch
- Hyder


Sgiliau i'r Dyfodol

Er mai dim ond 17% ddywedodd y byddant yn bwriadu recriwtio pobl ar gyfer swyddi yn gysylltiedig â'r agenda Sero Net, sgiliau Ynni Adnewyddadwy oedd y sgil uchaf a restrwyd pan ofynnwyd beth fydd ei angen yn y dyfodol. Mae cyflogwyr angen mwy o eglurder ar gyfrifoldebau a chyfleoedd Sero Net. Roedd y sylwadau niferus ar y cwestiwn hwn a'r prif sgiliau a gymerwyd o'r sylwadau hynny yn cynnwys:

- Digidol / TG / Rhaglennu / Meddalwedd • Nyrsio / Gofal
- Arlwyo a Lletygarwch
- Arweinwyr / Rheolwyr / Arweinwyr Prosiect
- Athrawon / Darlithwyr
- Ecoleg / Cynaliadwyedd


Roedd llawer o'r sylwadau ar sgiliau i'r dyfodol yn adlewyrchu'r gofynion sgiliau presennol.

Gweithwyr Newydd yn Barod am Waith?



RLSP Skills Survey

Sgiliau Sydd eu Hangen - 5-10 mlynedd nesaf



RLSP Skills Survey



Adeiladu

Gweithlu

3,112 Cyflogwr yn y Rhanbarth

Yn 2021, roeddent yn cyflogi 17,066 o bobl, 19% yn fwy nag yn 2019

Maint Busnesau

- 93% Micro
- 6% Bach
- 0.8% Canolig
- 0.2% Mawr

Gallai 18% o'r gweithlu fod yn ymddeol o fewn y 10 mlynedd nesaf, mae 80% yn Ddynion

Source: Emsi Burning Glass 2022

Addysg

Prentisiaethau yn 2021/22

- 370 Prentis Sylfaen
- 185 Lefel 3
- 20 Lefel 4 neu uwch

Addysg yn y Gweithlu

- 13,320 wedi'u haddysgu rhwng NVQ 1 – 3
- 2,941 wedi'u haddysgu i Lefel 4 neu uwch

Diffyg cymwysterau ar gael ar gyfer tai fframiau pren a dylunio offer ar gyfer cartrefi newydd.

Nid oes unrhyw ddarparwyr hyfforddiant yn Ne-orllewin Cymru yn cynnig Prentisiaethau Gweithwyr Daear.

Source: <https://statswales.gov.wales>

Sgiliau Sector

Cynnydd 2018 - 2022

- Cynnydd o 24% mewn Trydanwyr
- Cynnydd o 31% mewn Sgaffaldwyr
- Cynnydd o 39% mewn gweithwyr Toeon
- Cynnydd o 26% mewn gweithwyr Peiriannau

Gostyngiadau 2018 -2022

- -14% mewn Plastrwyr
- -26% mewn Peintwyr ac Addurnwyr
- -5% mewn bricwyr

Source: Emsi Burning Glass 2022

Arolwg Sgiliau 2022

- Mae 70% yn cael anhawster recriwtio ar gyfer swyddi penodol
- Mae 69% yn bwriadu recriwtio o fewn 12 mis
- Dywedodd 27% fod cadw staff yn problem
- Mae prentisiaid gan 73% o gyflogwyr yn yr arolwg



Prif Ganfyddiadau

Arolwg Sgiliau 2022 - 65 o ymatebion

Heriau

- Recriwtio
Canfyddiadau o'r sector
Cyflogau isel
Diffyg ymgeiswyr / gormod o ddewis cystadleuol
- Hyfforddi a Datblygu Staff
Dywedodd 12% fod staff newydd yn barod am waith Sgiliau / cymwysterau, profiad ac agweddau gwael yw'r prif ffactorau negyddol
- Materion Ariannol
Cost deunyddiau crai
Pwysau chwyddiant / Tanwydd
- Soniodd 69.5% am heriau sgiliau
Meysydd mwyaf cyffredin:
Swyddi crefft a gweithio peiriannau medrus
Swyddi proffesiynol, e.e. Prynu, Cynllunio, Rheolwyr ac ati
- Soniodd 37% am rwystrau o ran hyfforddiant
Meysydd mwyaf cyffredin:
Diffyg arian
Amlygrwydd ac argaeledd hyfforddiant
Hyblygrwydd cyrsiau
Cyfyngiadau amser
Diffyg darparwyr lleol da
- Mae 21% yn gobeithio recriwtio ar gyfer sgiliau Sero Net

Camau

Penodi wrth i weithwyr ymddeol

Parhau i sicrhau llif da o grefftwyr medrus, mae mawr angen prentisiaethau ar gyfer y crefftau canlynol

- Peintwyr ac Addurnwyr
- Plastrwyr
- Bricwyr

Defnyddio technolegau awtomatig newydd

Argaeledd Athrawon a Darlithwyr, llwybrau penodol

- TrustMark
- Ynni Adnewyddadwy / Deunyddiau cynaliadwy
- Fframiau Pren
- Fframiau Dur
- Gwaith Daear

Gwellu sgiliau ar gyfer TrustMark / MCS

- Gwell defnydd o ddysgu cyfunol

Diweddarw'r dysgu presennol i gynnwys canllawiau adeiladu newydd

Y swyddi anoddaf i'w llenwi / swyddi a hysbysebwyd yw

- Bricwyr
- Gweithwyr Daear
- Peintwyr ac Addurnwyr
- Plastrwyr
- Weldwyr
- Gosod pibellau
- Trydanol / peirianwyr / ffitwyr / dylunwyr
- Goruchwylwyr / rheolwyr safle
- Peirianwyr mecanyddol / ffitwyr



Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch

Workforce

Yn 2021 roedd 1,222 o Gyflogwyr yn y Rhanbarth

- 81% Micro
- 13% Bach
- 5% Canolig
- 1% Mawr

Maent yn cyflogi 21,071 o bobl, 0.8% yn fwy nag yn 2019, gallai 20% o'r gweithlu ymddeol yn y 10 mlynedd nesaf, mae 76% yn Ddynion.

Source: Emsi Burning Glass 2022

Addysg

Prentisiaethau yn 2021/22

- Prentis Sylfaen
- 140 Lefel 3
- 5 Lefel 4 neu uwch

Addysg yn y Gweithlu

- wedi'u haddysgu rhwng NVQ 1 – 3
- 5,524 wedi'u haddysgu i Lefel 4 neu uwch

Source: <https://statswales.gov.wales>

Mae prentisiaid gan 58% o'r cyflogwyr yn yr arolwg

Sgiliau Sector

Cynnydd 2018 – 2022

- Cynnydd o 19% mewn Cynhyrchwyr Haearn / Dur
- Cynnydd o 6% mewn Rheolwyr Cynhyrchu a Chyfarwyddwyr mewn Gweithgynhyrchu
- Cynnydd o 4% mewn Galwedigaethau Peiriannau Prosesu Elfennol

Gostyngiadau 2018 – 2022

- Gostyngiad o 8% mewn Cynhyrchwyr Gwaith Metel a Ffitwyr Cynnal a Chadw
- 10% mewn Cydosodwyr
- 11% mewn gweithredwyr Peiriannau Gwaith Metel

Source: Emsi Burning Glass 2022

Arolwg Sgiliau 2022

- Mae 80% yn cael anhawster recriwtio ar gyfer swyddi penodol

Mae 74% yn bwriadu recriwtio o fewn 12 mis

Gofynion Sgiliau'r 5-10 Mlynedd Nesaf

- Peirianwyr Arbenigol
- Gweithgynhyrchu Clyfar
- Ynni Adnewyddadwy
- Codio digidol / y we

Prif Ganfyddiadau

Arolwg Sgiliau 2022 - 27 o Ymatebwyr

Heriau

- Materion recriwtio – mae 70% yn bwriadu recriwtio yn y 12 mis nesaf ond dywedodd 80% eu bod yn cael anhawster recriwtio Cystadleuaeth gan gyflogwyr eraill Cyflogau isel Diffyg ymgeiswyr / diffyg diddordeb yn y sector Lleoliadau daearyddol
- Hyfforddi a Datblygu Staff Dywedodd 7% fod staff newydd yn barod am waith Sgiliau, Profiad a diffyg cymhellant / agweddau gwael oedd y prif ffactorau negyddol
- Soniodd 60% am heriau sgiliau Y meysydd mwyaf cyffredin Most prevalent areas. Gwaith crefft medrus a pheiriannau prosesu Swyddi proffesiynol, e.e. Prynu, Cynllunio, Rheolwyr ac ati.
- Heriau Sgiliau Meddal Datrys problemau Arweinyddiaeth / Perchnogaeth Sgiliau cyfathrebu Rhifedd Sylfaenol
- Mae 15% yn ystyried recriwtio ar gyfer sgiliau swyddi Sero Net

Camau

Mae angen i'r sector weithio gydag addysg cyn ac ôl-16. Rhaglenni ffit i weithio i sicrhau bod sgiliau swyddi cyffredinol perthnasol yn cael eu cynnwys. Megis:

- Arweinyddiaeth / Rheolaeth
- Cyfathrebu / ysgrifenedig / llafar / deall a/neu roi cyfarwyddiadau
